

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth
DYDDIAD	18 Chwefror 2021
TEITL	Ymgynghoriad Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Canllawiau drafft newydd ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Tref a Chymuned
AWDUR	Swyddog Monitro

Cefndir

1. Mae'r Ombwdsman yn ymgynghori ar ganllawiau drafft newydd ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Tref a Chymuned. Cyhoeddwyd Canllawiau cyfredol yr Ombwdsman ar gyfer y Cod Ymddygiad Aelodau yn Awst 2016. Nodwyd eu pwrpas;

“..... helpu chi fel aelod i ddeall eich rhwymedigaethau o dan y Cod.”

Mae hynny yn parhau fel pwrpas cydnabyddedig yn y drafft diweddaraf

2. Fel Swyddog Monitro rwyf wedi eu cael yn ddefnyddiol o sawl safbwynt gan gynnwys darparu cyfrwng darllenadwy i aelodau a'r cyhoedd ynglŷn a natur a chynnwys y Cod Ymddygiad. Gan eu bod yn cynnwys esiamplau o achosion blaenorol mae'n ddogfen sydd yn gallu rhoi cyd destun ac esboniad rhwydd ar gyfer dehongli Cod sydd yn eithaf cyfreithiol ei natur. Fodd bynnag mae dros 4 blynedd ers cyhoeddi y rhai cyfredol a chan ddal sylw at faterion megis yr hinsawdd o amgylch trafodaethau gwleidyddol gellir dadlau fod sawl tro ar Fyd wedi bod.
3. Mae'r ymgynghoriad yn rhoi cyfle i ystyried y Canllawiau Drafft a chynnig sylwadau arnynt. Gan mae eu pwrpas yw cynorthwyo aelodau i ddeall y Cod ac nid cyfreithwyr mae'n briodol felly fod ymateb i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu barn y defnyddwyr.
4. Nid oes cwestiynau penodedig wedi eu gosod yn yr ymgynghoriad ond gan ddal sylw at bwrpas y ddogfen gallaf awgrymu y materion amlwg canlynol ar gyfer eich ystyriaeth:
 - Ydi'r arweiniad a roddir yn ddealladwy ac o ddefnydd?
 - Oes agweddau sydd ddim gystal ac y gellir eu gwella a sut?
 - Oes angen ychwanegu rhywbeth? Beth?

Mae'r ymgynghoriad yn cau ar y 21ain o Fawrth.

Argymhelliad

Cyflwyno sylwadau ac adborth ar yr ymgynghoriad i'r Pwyllgor Safonau er darparu ymateb.

Atodiad 1

Canllawiau drafft newydd ar y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau Cynghorau Sir